

Cofion

- Parhawn i gofio am bawb sydd mewn angen gan eu cyflwyno'n dyner i ofal Duw. Anfonwn ein cofion at Doreen Evans (Tanyfron) sydd bellach wedi cael ei llawdriniaeth, gan hyderu y caiff adferiad iechyd buan iawn rwan. Yn parhau yn Ysbyty Glan Clwyd hefyd ac yn cael gofal da y mae Menna Owen (Cefn Meiriadog). Anfonwn ein cofion ati hithau a gweddiwn y bydd ei hiechyd hithau yn cael ei adfer yn fuan iawn. Hyderwn bod y ddwy ohonynt, a'u teuluoedd, yn profi cariad Duw yn eu hamgylchynu a'i fod yn nodedd ac yn nerth iddynt o ddydd i ddydd. Cafodd Jane Williams (Llansannan) ddod adref o'r ysbyty a gweddiwn y bydd Duw yn ei hamgylchynu hithau gyda'i drugaredd a'i ddaioni.
- Llongyfarchiadau i Dafydd Owens (Llanefydd) a Hazel ar enedigaeth mab, Dylan John. Llongyfarchiadau hefyd i Elfed a Mair Williams (Cefn Meiriadog) ar ddathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol.

LLANW

Gŵyl er mwyn dod â Christnogion led-led Cymru at ei gilydd er mwyn dathlu a dyfnhau ein perthynas gyda'r Duw byw yw Llanw ac fe fydd cyfle yno i gymdeithasu, i ddysgu ac i addoli gyda'n cyd-Gristnogion. Caiff ei chynnal yng Ngwersyll Quay West, Cei Newydd yn Sir Aberteifi **rhwng Ebrill 9fed-13eg**. Mae'n ŵyl deuluol ar gyfer holl deulu Crist - plant, ieuenctid, teuluoedd, myfyrwyr, parau a phobl sengl o bob oed! Bydd darpariaeth lawn ar gyfer y plant gydol yr wythnos, clybiau yn ystod y gwasanaethau a rhyddid i fwynhau gweithgareddau'r ganolfan wyliau, fel y pyllau nofio a'r bowlio deg, yn y prynhawn. Gall unigolyn rhwng 14 a 17 mlwydd oed fynychu'r ŵyl heb eu rhieni os yw Capel neu Warchodwr yn gyfrifol amdano.

Os am logi carafan, cysylltwch ar fyrder efo Ben neu Sioned Nuss (01745 833457) i gael mwy o fanylion, gan fod angen talu **erbyn Ionawr 26ain**. Gofynnir i chi, lle bo modd, archebu carafan gyfan fel grŵp o ffrindiau neu deulu, ond lle nad yw hynny'n bosib, mae croeso i unigolion archebu lle ac fe'ch rhennir i mewn i garafanau wrth gyrraedd. Mae croeso hefyd i rai sydd ddim am aros yng Ngwersyll Quay West i ymuno â ni ac i'r rhai sydd am fynd yno am ddiwrnod neu fwy yn unig. Ewch i'r wefan llanw.org i gael mwy o fanylion.

I ddod

- **Cyfarfod Gweddi** yn y Granar, Llansannan nos Fawrth, Ionawr 24ain am 7.30 pryd y bydd cyfle i aelodau Capel Hiraethog ethol mwy o ddiaconiaid.
- **Aduniad Souled Out** yng Ngholeg y Bala, Ionawr 27ain -29ain.
- **Penwythnos i blant Gofalaeth Bro Aled rhwng 8-11 oed yng Ngholeg y Bala**, Chwefror 3ydd-5ed. Cost: £55 y plentyn a £27.50 ar gyfer ail plentyn o'r un teulu, ond bydd gostyngiad o £10 i bob plentyn o'r Ofalaeth. Rhaid llenwi ffurflen ganiatâd ac anfon blaendal o £10 i'r coleg **erbyn YFORY!** Ffurflenni a mwy o wybodaeth ar gael gan Rhodri (01745 870522 / 07814 660291).

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 15^{fed} Ionawr 2012

Cofiwch bod angen archebu lle ar gyfer y Penwythnos Plant Cynradd yng Ngholeg y Bala erbyn YFORY! Mwy o fanylion ar y cefn.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso cynnes i chwi i oedfaon y dydd. Diolchwn am gael gweld diwrnod newydd o ras, a chael cyfle i gyd-geisio'r Arglwydd a'i fendithion tragwyddol.

Mae'r dydd yn ymestyn! Mae'n eithriadol o fwyn ac mae rhai wedi gweld cennin Pedr yn barod! Mae'r eirlysiau i'w gweld yn lled gyffredin a phob arwydd yn dweud ei bod hi'n nesu at y Gwanwyn. Mae ambell i goeden hefyd yn ei blodau a blagur ar y lleill. Addewid gwanwyn yn wir!

Mae addewidion Duw yn felys iawn hefyd. Bydd yn gosod arwyddion i ni yma ac acw, a hynny weithiau ynghanol ein gaeafau. Y maent i'w gweld gliriaf yn ei Air – mae'r Beibl yn llawn o addewidion grasol ac mae eu canfod yn codi'r galon! Wrth i ni addoli'r Arglwydd hefyd, beth am graffu i weld os clywn ni un o'i addewidion? Wrth ddarllen y Gair, edrychwn amdanynt fel y byddwn yn edrych am arwyddion y gwanwyn yn yr ardd neu yn y cloddiau. Ynghanol y geiriau fe fydd addewidion Duw yno yn fywyd ac yn nerth i ni.

Roedd hanes y cennin Pedr ar y newyddion! Mae addewidion Duw yn haeddu bod yn y newyddion hefyd. Dyna yw braint pregethwyr – cael cyhoeddi fod bendithion Duw o'n cwmpas ac ar gael i ni! Wrth wrando heddiw, edrychwch a fydd y bregeth yn cynnwys addewid oddi wrth Dduw i chi - addewid a fydd yn haeddu cael ei rhannu ag eraill. Braint gwrandawyr yw cael rhannu yr hyn a dderbyniwyd – yr addewidion a ddaeth gan Dduw, gwaith yr Ysbryd yn y galon. Os derbyniwch, rhannwch! Gwnewch y peth yn destun newyddion da i'w rannu!

A deud y gwir – dyna sut y clywais i am y cennin Pedr. Dydw i ddim wedi gweld yr un blodyn eto, ond dwi'n credu fod y stori'n wir oherwydd felly roedd hi y llynedd a'r flwyddyn cynt a bod eraill yn dweud eu bod wedi eu gweld.

Er mor syfrdanol yw addewidion Duw ac er mor rhyfeddol yw eu cynnwys gallwn gredu'n llawn ynddynt oherwydd maent wedi eu seilio ar yr hyn y mae Duw wedi ei wneud a'r hyn y mae pobl Dduw wedi ei gredu ar draws y canrifoedd.

Buaswn yn falch iawn o glywed pa un o addewidion Duw sydd wedi ei roi o'r newydd neu sydd wedi cael ei chadarnhau i chi heddiw. Pob bendith ar y gwrandao ac ar ein cyd-addoliad yn Ei gwmmni.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
• Bydd cyfarfod ar gyfer aelodau **Tîm Eiddo'r Ofalaeth** yn Festri Cefn Meiriadog am 8.00.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30. *Ceisiadau gweddi i Celfyn (550274) neu Hafwen (813445), os gwelwch yn dda.*
- Mercher • **Adnabod – Noson gymdeithasol** yn y Granar, Llansannan am 7.30. Croeso i bawb.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth Cynhelir Oedfa Dechrau'r Flwyddyn yng Nghapel Cefn Meiriadog am 7:00 gyda'r Parchg Ddr Geraint Tudur yn pregethu.
- Sul nesaf Ceir Cyfarfod Teuluol yng nghwmni Ben a Sioned Nuss yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Ni fydd Ysgol Sul yn y prynhawn. Yn Llanfair, bydd Cyfarfod Gweddi am 10.00 a'r Ysgol Sul am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cyd-redeg. Bydd Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00. Yn dilyn yr oedfa, cynhelir Cyfarfod Eglwys ar gyfer aelodau Tanyfron.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Yn dilyn yr oedfa, bwriedir mynd i Gartref Maes Elwy yn Nhrefnant i gynnal gwasanaeth. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Groes.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 11.15.
- Iau Cynhelir cyfarfod o Gymdeithas Cefn Berain am 7.30 pryd y bydd Dewi Roberts sy'n gweithio fel Warden ar y Carneddau yn dod i roi sgwrs am ei waith.
- Sul nesaf Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau